

CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD

DEDDF SAFONAU A FFRAMWAITH YSGOLION 1998

DARPARIAETH YSGOLION CYFRWNG SAESNEG

HYSBYSIR DRWY HYN yn unol ag Adran 41 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Dinas a Sir Caerdydd (sef "yr Awdurdod" o hyn ymlaen), ar ôl ymgynghori â'r unigolion priodol, yn cynnig:

Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd fel cyfleuster mewn adeilad newydd wedi'i gyfuno â'r ganolfan gymunedol bresennol ym Mhontpennau, yn Heol Pontpennau, Pontpennau, Caerdydd, CF23 8LL.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu i gyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnig crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn ar gael i'w gweld yn www.caerdydd.gov.uk.

Bydd gan yr ysgol newydd 420 o leoedd a bydd yn darparu ar gyfer yr ystod oedran 3-11 gan gynnwys 48 o leoedd meithrin cyfwerth ag amser llawn (FTE, sef cyfanswm o 96 o leoedd meithrin rhan amser).

Bwriedir gweithredu'r cynnig o fis Medi 2015.

O ran y cynnig ar gyfer yr Ysgol newydd, cynigir y canlynol:

- Bydd yr ysgol yn ysgol gymunedol a bydd yn derbyn bechgyn a merched.
- Ni fydd trefniadau derbyn yr ysgol yn gwneud unrhyw ddarpariaeth o ran dewis disgyblion yn ôl gallu na bandio disgyblion.
- Bydd 60 o ddisgyblion yn gallu cael eu derbyn i Ddosbarth Derbyn yr ysgol (sef y grŵp oedran perthnasol), yn 4 neu 5 oed, yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf pan weithredir y cynigion.

Bydd rhaid i rieni'r plant sy'n derbyn lle mewn addysg feithrin wneud cais am le yn yr ysgol o hyd os ydynt am i'w plentyn drosglwyddo i'r dosbarth derbyn. Ni fydd mynychu'r feithrinfa yn sicrhau y caiff y plant hynny eu derbyn i'r Ysgol.

Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion i'r Ysgol a phennu'r meini prawf derbyn.

Bydd unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion i'r ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod ar gludo plant i'r ysgol.

O fewn cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef erbyn 03 Chwefror 2014, gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir Caerdydd, gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol:

YmatebionYsgolion@caerdydd.gov.uk

Noder bod yn rhaid i unrhyw wrthwynebiad a anfonir drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post y sawl sy'n gwrthwynebu.

Dyddiedig 3 Chwefror 2014

Llofnod: Shaun Jamieson
Cyfreithiwr y Sir
Ar ran Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond ei nod yw esbonio'i ystyron cyffredinol)

Cynigir y bydd yr ysgol gynradd Saesneg â dau ddsbarth mynediad yn agor yn 2015.

Bydd angen cynnal ymgynghoriad ar sefydlu dalgylch ar gyfer yr ysgol newydd arfaethedig a newid dalgylchoedd yr ysgolion sy'n bodoli eisoes. Bydd angen i'r dalgylchoedd fod o faint ac mewn ardal ddaearyddol sy'n gallu cynnal ysgolion sydd â'r nifer o ddisgyblion a gynigir, a rhaid iddynt fod yn ddigon cyfleus i'r rhan fwyaf o ddisgyblion a rhieni yn yr ardal.

Bwriedir cwblhau'r ymgynghoriad ar sefydlu dalgylch ar gyfer yr ysgol newydd arfaethedig ac ar ddiwygio dalgylchoedd Ysgol Gynradd Bryn Celyn ac Ysgol Gynradd Glyncoed erbyn 1 Mawrth 2014. Os caiff y cynnig i agor yr ysgol newydd o fis Medi 2015 ei weithredu, caiff trefniadau'r dalgylchoedd diwygiedig eu gweithredu o fis Medi 2015.

Gall pobl sydd am wneud sylwadau ar y trefniadau ar gyfer y dalgylchoedd neu eu gwrthwynebu wneud hynny yn ystod yr ymgynghoriad hwn.